**Aberystwyth University**

# *Gefeilldrefi Cymreig-Llydaweg*

Goodwin-Hawkins, Bryonny; Jones, Rhys Dafydd

*Publication date:*
2020

*Citation for published version (APA):*
Goodwin-Hawkins, B., & Jones, R. D. (2020, Feb 1). Gefeilldrefi Cymreig-Llydaweg: Cyfleoedd a heriau ar gyfer y dyfodol.

**General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the Aberystwyth Research Portal (the Institutional Repository) are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

• Users may download and print one copy of any publication from the Aberystwyth Research Portal for the purpose of private study or research.
• You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
• You may freely distribute the URL identifying the publication in the Aberystwyth Research Portal

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

tel: +44 1970 62 2400
email: is@aber.ac.uk

Download date: 09. Jul. 2020

W/SERD
Wales Institute of Social & Economic
Research, Data & Methods

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Gefeilldrefi Cymreig-Llydaweg

## Cyfleoedd a heriau ar gyfer y dyfodol

Mae gan sawl tref Gymreig gefeilldref yn Llydaw. Mae trefeillio yn rhan o gymdeithas sifil, gan greu cyfleoedd am gyfeillgarwch rhyngwladol a chyfnewid diwylliannol. Dathla cysylltiadau Cymreig-Llydewig, yn benodol, treftadaeth Geltaidd gyffredin. Ond gyda heriau medig wyliau cost isel a Brecsit, a fydd trefeillio'n parhau'n berthnasol, neu fydd yn cael ei gaethiwo i hanes?




*Gyfeilltrefi Llydewig yng Nghymru © Cyfranwyr OpenStreetMap*

Taniwyd diddordeb ymchwilwyr WISERD, Bryonny Goodwin-Hawkins a Rhys Dafydd Jones mewn gefeilldrefi yn sgil eu hymchwil ar fudo Almaenaidd i Gymru, gan ddysgu bod nifer o fewnfudwyr o'r Almaen wedi ymweld â Chymru ynghynt ar daith gyfnewid. Roeddent am ddysgu mwy am bwysigrwydd cyfnewid diwylliannol Ewropeaidd i Gymru, felly edrychant ar draws y môr i Lydaw.

Mae **cysylltiadau Celtaidd** wedi bod yn bwysig yn adfywiad hunaniaeth Gymreig a Chymraeg. Yn 1964, trefeilliwyd Caerdydd gyda Nantes, rhan o'r Llydaw hanesyddol. Daeth ton o efeilldrefi Cymreig-Llydewig yn y 1970au, gyda chysylltiadau newydd yn cael eu meithrin yn y degawdau canlynol. Mae dros 40 o drefi Cymreig ag gefeilldref Lydewig. Fe'u gwelir ar y map ar y chwith.

### Beth yw gefeilldref?

Dechreuodd trefeillio (Town twinning – 'jumelage' yn Ffrangeg) – yn bennaf ar ôl yr ail ryfel byd er mwyn adfer cysylltiadau da ymhlith cymdogion gwladol. Erbyn hyn mae trefeillio yn gyffredin ar draws Ewrop, o ddinasoedd at bentrefi. Mae trefeillio'n fwy na chytundeb swyddogol neu arwydd coffaol. Mae trefeilllio'n caniatáu trigolion i gyfrannu. Mae digwyddiadau a gweithgareddau'n cynnwys: cymdeithasu, cyfnewidfeydd ysgolion, chwaraeon, cerddoriaeth a dawns, gwyliau a gwibdeithiau, dysgu ieithoedd, a dirprwyaethau swyddogol.




*Fête des Associations Hennebont 2019 © Bryonny Goodwin-Hawkins*

## Ar wib yn Llydaw

Er mwyn dysgu mwy am drefeillio Cymreig-Llydewig cyfredol, ymwelodd Bryonny Goodwin-Hawkins dwy dref Lydewig ym mis Medi 2019: Hennebont (Henbont) a St-Brieuc (Sant-Brieg).

Tref â phoblogaeth o dua 15,000 yw Hennebont, yn ne Llydaw, a fe'i threfeilliwyd gyda'r Mwmbwls ers 2004. Trefeilliwyd St-Brieuc, yn y Côtes-d'Armor ar arfordir Môr Udd gydag Aberystwyth ers 1973.




*© Cyfranwyr OpenStreetMap*




*Ynys Cadog, ger Hennebont © Bryonny Goodwin-Hawkins*

Mae **Hennebont** ryw 15km o Lorient, un o borthladdoedd pysgota mwyaf Ffrainc, sy'n adnabyddus am yr ŵyl rhyng-Geltaidd flynyddol. Mae gan yr ardal gysylltiadau Cymreig hynafol. Croesodd y sant Cadog Môr Udd yn y 6ed ganrif, a chredir iddo fyw ar ynys yn Afon Etle, lle'i goffeir gan gapel. Yn fwy diweddar, cyfnewidiwyd coed Llydewig ar gyfer glo Cymreig, a gludwyd i fynny'r afon ar gyfer diwydiant Hennebont.

Mae Hennebont hefyd yn efeilldref i Kronach yn yr Almaen, Mourdiah ym Mali, a Halhul ym Mhalestina. Roedd y pedwar cymdeithas trefeillio i'w gweld yn y Fêtes des Associations, a fynychwyd gan Bryonny. Mae'r digwyddiad blynyddol hwn yn helpu trigolion lleol i ddarganfod clybiau a gweithgareddau i ymuno.

Ymwelodd Bryonny amgueddfa tŵr a Basilica Hennebont, a dysgodd mwy am dreftadaeth forol leol yn Citadel Port-Louis hanesyddol, a Glaciere Etel (ffatri iâ), sydd yn y broses o gael ei hadnewyddu.

### Trefeillio yn Hennebont

- Rhanna'r pedwar cymdeithas trefeillio ystafell benodedig mewn adeilad cymunedol. Gofod i ddod ynghyd ac i gadw cofarwyddion o deithiau cyfnewid yw hon.
- Mae aelodau cymdeithas trefeillio Hennebont yn mwynhau cymdeithasu gyda'i gilydd. Dena bywyd cymdeithasol trefeillio aelodau newydd, gan gynnwys pobl sydd wedi symud i Hennebont ac am gyfrannu yn lleol.
- Cyfranna ffioedd ymaelodi a chyllideb oddi wrth y cyngor at gymorthdaliadau ar gyfer gweithgareddau, gan gynnwys taith gyfnewid flynyddol gyda'r Mwmbwls.



Hennebont-Mumbles reçoit une universitaire galloise

*Bernard Chauliac, Bryonny Goodwin-Hawkins et René Guérin visitent les tours Broérec'h.*

PHOTO : OUEST-FRANCE

La branche galloise du comité des jumelages accueille, depuis samedi,

Chauliac, l'un des responsables du jumelage gallois. **Nous avons eu une**

*Ymweliad Hennebont ym mhapur newyddion*
Ouest France

## Trefeillio yn St-Brieuc

- Canolbwyntia cymdeithas trefeillio St-Brieuc ar hwyluso cyfnewidfeydd gyda grwpiau lleol eraill yn y ddwy dref. Mae ystod o gyfnewidfeydd addysgiadol, diwylliannol, a chwaraeon wedi cymryd lle: bu hyd yn oed cyfnewid gyda'r frigâd dân!
- Mae taith cyfnewid rhwng grwpiau dawns draddodiadol Lydewig a Chymreig wedi rhedeg yn llwyddiannus am sawl blwyddyn, ac yn cynnwys perfformiadau cyhoeddus.
- Yn fwy diweddar, mae cymdeithas trefeillio St-Brieuc' wedi darparu cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu i deithio i a chael profiad o Gymru.




*Cylchfan Aberystwyth St-Brieuc © Bryonny Goodwin-Hawkins*

Enwyd **St-Brieuc** ar ôl sant Cymreig, sef Briog. Teithiodd o Geredigion yn y 5ed ganrif, ac fe'i cydnabyddir fel un o'r saith sant a sefydlodd Llydaw. Erbyn heddiw adnabyddir y dref yn bennaf am gregyn bylchog (scallops) nodedig: y coquilles St-Jacques.

Trefeillir St-Brieuc hefyd gydag Alsdorf yn yr Almaen ac Aghia Paraskevi, ger Athen yng Ngroeg. Ymunodd Bryonny â dirprwyaeth o Gyngor Tref Aberystwyth ar gyfer agoriad arddangosfa yn ffair flynyddol St-Brieuc. Mynychodd cynrychiolwyr o gymdeithasau trefeillio trefi cyfagos, ynghyd ag ymwelwyr o'r Almaen. (Yn 2020 cynhelir cynhadledd fawr ar drefeillio Ffrenging-Almaenaidd yn St-Brieuc.)

Sylwodd Bryonny ar ambell fan lle coffeir trefeillio yn St-Brieuc, gan gynnwys cylchfan Aberystwyth! Ymwelodd, hefyd, yr harbwr a'r bae, gan ddysgu am straeon o'r gorffennol a heriau cyfoes.




*Cofion St-Brieuc – Aberystwyth*

## Pam ymuno a chymdeithas threfeillio?

Fel sawl ffurf arall o gymdeithas sifil, mae gan bobl rhesymau eu hunain am gyfrannu at drefeillio. Mae cymhelliannau'n wahanol rhwng Llydaw a Chymru hefyd, ond mae sawl rheswm yn gyffredin:

- Er mwyn cwrdd â phobl newydd – adref neu tramor.
- Er mwyn dysgu neu ymarfer ieithoedd.
- Er mwyn archwilio diddordeb mewn gwlad arall.
- Ar gyfer dealltwriaeth traws-ddiwylliannol.
- Er mwyn teithio gyda grŵp wedi ei drefnu (yn aml am gost is) a mynediad at gysylltiadau sydd eisoes wedi eu ffurfio.
- Er mwyn rhannu atgofion o deithiau cynt a chynnal cysylltiadau gyda ffrindiau tramor.
- Oherwydd cymerodd eu plant rhan mewn taith cyfnewid yn yr ysgol.



*Swper cyfnewid dawsio, St-Brieuc © Bryonny Goodwin-Hawkins*

## Beth yw'r heriau?

Mae trefeillio wedi bod yn gyffredin am ddegawdau nawr, gan gynnig nifer o gyfleoedd – ond mae heriau ar gyfer y dyfodol eisoes yn amlwg.

- Gall iaith fod yn rhwystr ymarferol. Er bwriada trefeillio i feithrin cyfeillgarwch er gwaethaf gwahaniaethau, ni all ewyllys da ddygymod anawsterau cyfathrebu bob tro.
- Yng Nghymru, mae addysg ieithyddol yn her ar gyfer cyfrannu. Mae dysgu iaith Ewropeaidd yn dirywio yng Nghymru. Golyga llai o fyfyrwyr llai o alw am gyfnewid – gan gynyddu rhwystrau ieithyddol ar gyfer y dyfodol.
- Mae cymdeithasau cyfeillio'n cael hi'n anodd denu aelodau iau. Cyfranna bobl ifainc drwy gyfnewidfeydd ysgolion, chwaraeon, a cherddoriaeth, ond nid ydynt yn parhau drwy ymuno â chymdeithasau lleol. Ymddangosa cymdeithasau sy'n heneiddio, yn eu tro, yn llai deniadol ar gyfer pobl ifainc.
- Mae 'pencampwyr' brwdfrydig yn arwain cymdeithasau, trefnu digwyddiadau ac yn cynnal cysylltiadau, Ond mae pencampwyr yn heneiddio, ac yn cael hi'n anodd dod o hyd i olynwyr sy'n fodlon neu fedru gwneud llawer o waith gwirfoddol.
- Gall cyllidebau cyhoeddus tynn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, olygu bod cynghorau cymuned yn llai parod i gefnogi cyfeillio yn ariannol. Gyda llai o adnoddau ar gael ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus neu hyrwyddo, ynghyd a'r heriau uchod, mae yna beryg bod trefeillio yn dirywio i fod yn berthynas mewn enw yn unig.

Mae gan drefeillio nifer o fanteision. Ond dechreuodd trefeillio cyn dyfodiad hedfan cost-isel a mynediad at wyliau hawdd ar draws Ewrop. Ond nid yw trefeillio'n gyfle unigryw mwyach - a gall dychwelyd yn rheolaidd ymddangos yn ddiflas o gymharu â 'rhestru bwced' teithio hirion.

Yn ddiweddar, mae ffenomenon 'dad-drefeillio' wedi ymddangos. 'Dad-drefeillia' trefi lle nad yw'r diddordeb, ewyllys, nei'r gallu i barhau â'r cysylltiad. Gall hwn godi yn sgil cwymp mewn aelodau cymdeithas neu dranc rhaglenni gweithredol megis cyfnewidfeydd ysgolion. Ar draws y DU, mae gofidion am ddiogelu plant a gostyngiad mewn niferoedd sy'n dilyn ieithoedd yn benodol wedi effeithio ar gyfnewidfeydd ysgolion.

Mae gwleidyddiaeth hefyd wedi cael effaith. Mae yna awgrymiadau bod Ewrosgeptiaeth wedi effeithio ambell berthynas drefeillio yn negyddol. Yn fwy rhyddieithol, mae trefeillio wedi bod yn darged hawdd ar gyfer arbedion costau cynghorau. Ar ei waethaf, canfyddiwyd teithiau cyfnewid fel 'bach o joli'.

Mae yna sawl her i'w dygymod, a golyga goroesi'r angen i addasu. Ond rhaid i ambell beth aros: gwerthoedd cyfeillgarwch a chyfnewid.

*Rydym yn ddiolchgar i gymdeithasau trefeillio'r Mwmbwls ac Aberystwyth am eu cymorth, ac i aelodau'r cymdeithasau yn Hennebont a St-Brieuc am eu hamser a'u lletygarwch.*

Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru
Centre for Welsh Politics and Society

## Manyllion pellach

**Bryonny Goodwin-Hawkins**:
brg16@aber.ac.uk

**Rhys Dafydd Jones**:
rhj@aber.ac.uk

I ddysgu mwy am WISERD ymwelwch â wiserd.ac.uk or @WISERDnews